# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-08-08)

**SLC135**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.**

**Teitl: Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio yng Nghymru yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae Rhan 6 o Ddeddf 2004 a Rheoliadau a wneir oddi tani yn disodli darpariaethau Rhan II ac Atodlen 3 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991.

Gweithdrefn: negyddol

Nodwyd y pwynt a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Yn rheoliad 2(4)(b), mae'r testun Cymraeg yn cynnwys yr ymadrodd "hysbysiad rheoliad 11" ["regulation 11 notice" ] heb eglurhad pellach. Mae rheoliad 11 yn ymdrin â gwargedau yn hytrach na hysbysiadau. Mae'r testun Saesneg yn nodi'n glir y dylid cyfeirio at reoliad 11 o'r Rheoliadau Gorfodi a Dyfarnu. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn rheoliad 7(2)(c) mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at symud dyfais yn anghyfreithlon. Yn y testun Cymraeg, nodir bod y gair "unlawful" yn absennol ac mae erbyn hyn yn darllen "(c) sy'n rhybuddio bod symud dyfais sy'n (this should say unlawful removal) rhwystro cerbyd rhag symud yn dramgwydd" ond ni chywirwyd y ddogfen. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ac mae'n bwriadu dirymu ac ail-wneud y Rheoliadau cyn gynted â phosibl a beth bynnag dim hwyrach na 30 Ebrill 2008.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Ebrill 2008